**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

# Ystyried cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2011–2012

Rhagfyr 2010

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8149
Ffacs: 029 2089 8021
e-bost: PwyllgorPlant.aPhoblIfanc@wales.gov.uk



© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

# Ystyried cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2011–2012

Rhagfyr 2010

## Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Penodwyd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ystyried materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru ac adrodd yn ôl ar y materion hynny.

Yn bennaf, gall y Pwyllgor archwilio gwariant, gweinyddiad a pholisi Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig ac ystyried adroddiadau Comisiynydd Plant Cymru.

Yn aml, nid yw oedolion yn cymryd barn plant a phobl ifanc o ddifrif. Fel gwleidyddion, ein cyfrifoldeb ni yw annog plant a phobl ifanc i leisio eu barn ac i ninnau wrando arnynt. Sefydlwyd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i helpu i wneud hynny.

## Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 16 Hydref 2007 pan gafodd cynnig i'w sefydlu ei gymeradwyo mewn Cyfarfod Llawn. Bydd yn bodoli drwy gydol y Trydydd Cynulliad. Nodir ei bwerau yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn arbennig yn Rheol Sefydlog 21. Mae'r rhain ar gael yn **www.cynulliadcymru.org**.

## Aelodau Cyfredol y Pwyllgor



**Helen Mary Jones (Cadeirydd)**
Llanelli
Plaid Cymru



**Eleanor Burnham**
Gogledd Cymru
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



**Sandy Mewies**
Delyn
Llafur



**Jonathan Morgan**
Gogledd Caerdydd
Plaid Geidwadol Cymru



**Joyce Watson**
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Llafur

# Cynnwys


**Argymhellion y Pwyllgor** ..... **5**

**Cefndir** ..... **7**

**Dull Gweithredu Llywodraeth Cymru o ran plant a phobl ifanc yn ei chyllideb ddrafft 2011-12** ..... **8**

Tlodi Plant ..... 8

**Arian Cymorth a Theuluoedd yn Gyntaf** ..... **10**

Cymorth cydgysylltiedig ..... 11

**Sicrhau bod yr arian yn cael ei gyfeirio i'r mannau cywir** ..... **12**

**Cymorth i'r plant a phobl ifanc mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas** ..... **13**

Digartrefedd ieuenctid ..... 14

Ymyrryd yn Gynnar ..... 15

**Tystion** ..... **16**

**Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig** ..... **17**

## Argymhellion y Pwyllgor

Rhestrir isod argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru, yn y drefn yr ymddangosant yn yr Adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth sy'n cefnogi'r argymhellion a'r casgliadau:

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Is-bwyllgor y Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc yn ymwneud mewn trafodaethau ar ddyrannu'r gyllideb yn llawer cynt dros y blynyddoedd nesaf er mwyn hwyluso ei rôl strategol o weithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r saith nod craidd. (Tudalen 8)

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn galw ar y Dirprwy Weinidog i weithio gydag awdurdodau lleol i ddileu unrhyw amheuaeth sy'n parhau o ran ffrydiau ariannu Cymorth ar gyfer 2011-12 ac i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwbl ymwybodol o'r trefniadau pontio. (Tudalen 11)

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Dirprwy Weinidog yn ailystyried y penderfyniad i rannu grant sefydliadol plant a theuluoedd rhwng yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Adran Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes yn 2012-13. (Tudalen 12)

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n monitro'n ofalus y dull clustnodi arian mewn modd hyblyg yn 2011-12, ac yn cymryd camau i hwyluso rhagor o glustnodi os oes angen i ffrydiau ariannu addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol. (Tudalen 13)

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru'n fonitro'n ofalus y trothwyau ar gyfer derbyn gwasanaethau, yn arbennig y trothwyau amddiffyn plant sy'n gymwys gan awdurdodau lleol trwy Gymru. Ymhellach, y dylid cyhoeddi canllawiau clir sy'n cynnwys diffiniadau o 'agored i niwed' a'r trothwyau amddiffyn plant lleiaf a ddylai fod yn gymwys, erbyn mis Ebrill 2011. (Tudalen 14)

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Dirprwy Weinidog ysgrifennu at holl awdurdodau lleol Cymru i'w hatgoffa am bwysigrwydd, effeithiolrwydd a gwerth gwasanaethau ymyrraeth

cynnar ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd ac i atgoffa awdurdodau lleol y gallai toriadau i wasanaethau fel hyn fod yn niweidiol i deuluoedd mewn argyfrwng, ac arwain at gost ariannol i lywodraethau lleol yn y dyfodol. (Tudalen 15)

## Cefndir

1. Mae'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn cydnabod bod Cymru ar flaen y gad o ran darganfod atebion i lawer o broblemau'n ymwneud â phlant a phobl ifanc. Caiff y neges am ymrwymiad y Llywodraeth i haneru tlodi plant erbyn 2010 a'i ddileu erbyn 2020 ei hail-adrodd yn rheolaidd gan y Dirprwy Weinidog dros Blant a'i gydweithwyr yn y cabinet. Mae'r ffaith bod Dirprwy Weinidog dros Blant wedi'i benodi yn brawf o ewyllys Llywodraeth Cymru i wella profiadau i'r 200,000 a mwy o blant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru a'r canlyniadau iddynt.

2. Cydnabu'r Pwyllgor, mewn amseroedd anodd o ran setliadau ariannol, bod torri cyllidebau'n anorfod. Diben craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2011-12 yw nid creu cyfle i alw am adnoddau afresymol ond yn hytrach i sicrhau, wrth i gyllidebau gael eu torri, bod ystyriaeth ddyladwy wedi'i rhoi i anghenion plant a phobl ifanc sydd ymhlith y grwpiau mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

3. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Leighton Andrews AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes a Huw Lewis AC, y Dirprwy Weinidog dros Blant. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar a thystiolaeth ysgrifenedig hefyd gan Barnardo's Cymru, Gweithredu dros Blant, Plant yng Nghymru a'r NSPCC yng Nghymru. Cafwyd tystiolaeth ysgrifenedig hefyd gan Achub y Plant.

## Dull Gweithredu Llywodraeth Cymru o ran plant a phobl ifanc yn ei chyllideb ddrafft 2011-12

### Tlodi Plant

4. Mae'r Pwyllgor yn croesawu sicrhad y Dirprwy Weinidog ynghylch penderfyniad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â dileu tlodi plant erbyn 2020. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor:

> We remain committed to [eradicating child poverty] despite all difficulties that might be thrown our way. It remains the case that we feel very strongly that while a third of Wales' children are being held back because of the circumstances of their birth then the whole of Wales is held back.[1]

5. Mae'r ymrwymiad wedi arwain at ddatblygu Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig gan Lywodraeth Cymru. Disgwylir y bydd hon yn cael ei chyhoeddi ym mis Chwefror 2011[2]

6. Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lunio cynlluniau gweithredu ar dlodi plant fel rhan o'u cyfrifoldeb newydd o dan y Strategaeth Tlodi Plant ddiweddaraf.

Mae'r Pwyllgor yn bryderus, fodd bynnag, fod cyfeiriadau penodol at ailddosrannu trwy dargedu a thrwy gamau trawsbynciol i fynd i'r afael â thlodi plant yn absennol o **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn** y gyllideb ddrafft.

7. Cadarnhaodd y Gweinidog, er bod Is-bwyllgor y Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc wedi cael y dasg o oruchwylio gweithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru a Saith Nod Craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, nid oes modd iddo roi barn drawsbynciol ar y gyllideb ddrafft cyn ei chyhoeddi. Ymddengys bod y dull gweithredu hwn yn lleihau rhyw gymaint ar allu'r is-bwyllgor i weithredu nod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn neu'r saith nod craidd mewn modd holistig drwy bob portffolio.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Is-bwyllgor y Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc yn ymwneud mewn trafodaethau ar ddyrannu'r**

---

[1] Cofnod y Trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 30 Tachwedd 2010, Paragraff (Para) 62 *gweler y cyfeirnod*

[2] Y Mesur drafft ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)

**gyllideb yn llawer cynt dros y blynyddoedd nesaf er mwyn hwyluso ei rôl strategol o weithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r saith nod craidd.**

### Cyllidebu ar gyfer plant

8. Yn ei ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar gyllidebu ar gyfer plant, derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhelliad y Pwyllgor i gyhoeddi datganiadau ar gyllidebau plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, roedd Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bwriad i gyhoeddi datganiadau o'r fath bob tair blynedd, yn hytrach nag yn unol â'r broses craffu ar y gyllideb yn flynyddol. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu adolygiad o'r penderfyniad hwn a chyhoeddi datganiad ar gyllidebau plant a phobl ifanc i gyd-fynd â phob cyllideb ddrafft.

9. Pwysleisiodd Barnardo's Cymru bod datganiadau ar gyllidebau plant a phobl ifanc yn hanfodol i hwyluso gwaith craffu priodol ar lefel lleol. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r farn hon ac yn croesawu rhagor o waith gan Lywodraeth Cymru i alluogi awdurdodau lleol i gymryd rhan mewn cyllidebu ar gyfer plant yn y dyfodol agos ac i'w hannog i wneud hynny.

### Deddfwriaeth newydd mewn perthynas â phlant a phobl ifanc

10. Cadarnhaodd y Gweinidog fod y costau sy'n gysylltiedig â gweithredu deddfwriaeth newydd mewn perthynas â phlant a phobl ifanc yn gostau gweinyddol yn bennaf ar hyn o bryd ac y byddai Gweinyddiaeth Ganolog y prif grwp gwariant yn gyfrifol am eu talu.

11. Mae'r Dirprwy Weinidog wedi ymrwymo i ystyried anghenion ariannu pellach pan fydd cynlluniau gweithredu ar waith, er, nes y gwyddys y costau hyn, nid oes modd eu nodi mewn cyllidebau mynegol ar gyfer 2012-13 a 2013-14.

### Cefnogaeth i wasanaethau rheng flaen

12. Dywedodd y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes wrth y Pwyllgor bod y gyllideb ddrafft yn rhoi:

> "Significant emphasis on protecting services for children and young people"[3]

[3] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 30 Tachwedd 2010, Para 5

13. Yn eu tystiolaeth i'r Pwyllgor, roedd Barnardo's Cymru, Gweithredu Dros Blant, NSPCC a Phlant yng Nghymru yn croesawu'r gyllideb ddrafft. Nododd Catriona Williams, Prif Weithredwr Plant yng Nghymru, ei bod wedi cael 'rhyddhad' a'i bod yn teimlo bod y ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc cystal â'r disgwyl yn y sefyllfa ariannol bresennol.

14. Fodd bynnag, pwysleisiodd Barnardo's Cymru:

> "There has been a 11% increase in the number of referrals to children's social services in the last 3 years, an 8% increase in the number of children placed on the child protection register in the last year and a 10% increase in the number of looked after children in the year up to April 2010. The ADSS Cymru have called for the protection of early intervention services from cuts to avoid increasing the need for statutory intervention. The emphasis on protecting budgets of 'essential' services contained within the Draft Budget and a lack of reference to the importance of early intervention services is therefore of concern.'[4]

15. Mae'r Pwyllgor yn pryderu y bydd y cynnydd yn y galw am wasanaethau cymdeithasol plant a'r gostyngiad mewn termau real yn y gefnogaeth ariannol i wasanaethau o'r fath yn annorfod yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau. Ystyrir canlyniadau posibl pwysau o'r fath yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, ond dylid nodi ei bod yn bosibl y gallai mwy o bwysau ar deuluoedd ar yr adeg hon arwain at fwy o angen eto am gefnogaeth i blant agored i niwed a'u rhieni; mae'n fwyfwy anodd diwallu gofynion am wasanaethau ar amser pan fydd cyllidebau'n cael eu torri.

## Arian Cymorth a Theuluoedd yn Gyntaf

16. Rhoddodd y Dirprwy Weinidog sicrhad I'r Pwyllgor bod trefniadau pontio ar waith i sicrhau bod symud o arian Cymorth i ddull ariannu Teuluoedd yn Gyntaf yn 'esblygu'n raddol yn fwy o gronfa genedlaethol gydlynol o dan y term Teuluoedd yn Gyntaf'. Pwysleisiodd y Dirprwy Weinidog hefyd y byddai'r arian roedd awdurdodau lleol wedi disgwyl ei gael yn 2011-12 fel rhan o arian Cymorth yn cael ei ryddhau'n llawn.

[4] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc(3)-16-10 (p2) tudalen 1

17. Dywedodd Barnardo’s Cymru wrth y Pwyllgor, er bod y Dirprwy Weinidog wedi ysgrifennu at awdurdodau lleol ar gais Barnardo’s i’w sicrhau y bydd yr arian yn parhau yn ystod 2011-12, roeddent yn parhau i brofi anawsterau o ganlyniad i ddadgomisiynu gwasanaethau a gaiff eu hariannu gan Cymorth gan awdurdodau lleol o fis Ebrill 2011. Mae’r ffaith bod ymateb awdurdodau lleol i’r newid o ran ariannu mor anodd ei ragweld wedi arwain at ansicrwydd o ran eu swyddi i staff sy’n darparu’r prosiectau Cymorth, ac anawsterau i’r elusennau hynny sy’n datblygu gwasanaethau ar gyfer y dyfodol i gynllunio’r gwasanaethau hynny.

18. Yn y pen draw, gallai’r ansicrwydd hwn arwain at deuluoedd yn syrthio i’r bwlch rhwng mwy nag un ddarpariaeth a cholli cyfle i gael cymorth hanfodol ar yr amser priodol

**Mae'r Pwyllgor yn galw ar y Dirprwy Weinidog i weithio gydag awdurdodau lleol i ddileu unrhyw amheuaeth sy'n parhau o ran ffrydiau ariannu Cymorth ar gyfer 2011-12 ac i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwbl ymwybodol o'r trefniadau pontio.**

## Cymorth cydgysylltiedig

19. Mae’r dull gweithredu Teuluoedd yn Gyntaf newydd yn cwmpasu cefnogaeth am y teulu, gan greu cymorth cydgysylltiedig sydd wedi’i addasu’n arbennig i’w anghenion. Croesewir y dull cydgysylltiedig hwn gan y Pwyllgor, ac edrycha’r Aelodau ymlaen at drafod Teuluoedd yn Gyntaf yn fanylach â’r Dirprwy Weinidog a’i swyddogion yn y Flwyddyn Newydd.

20. Ond dywedodd Barnardo’s Cymru a Phlant yng Nghymru wrth y Pwyllgor bod rhannu’r Grant Sefydliadol Plant a Theuluoedd (CFOG) rhwng yr Adran Plant, Addysg , Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a’r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn syrthio y tu allan i egwyddor gweithio cydgysylltiedig a gaiff ei hyrwyddo gan Teuluoedd yn Gyntaf.

21. Mae’r trafferthion a achoswyd gan rannu’r grant hwn yn cynnwys dryswch o ran lle y mae arian ar gael ar gyfer prosiectau trawsbynciol, yr angen am adnoddau gweinyddol ychwanegol wrth wneud cais am arian, a’r posibilrwydd y bydd rhai prosiectau yn syml yn methu cael arian o ganlyniad.

22. Mae'r grant i gael ei rannu yn 2012-13, sy'n hwyluso trafodaethau pellach dros y flwyddyn nesaf. Teimla'r Pwyllgor, am y rhesymau a nodwyd uchod, y dylid ailystyried y penderfyniad i rannu'r grant i osgoi unrhyw faich gweinyddol ychwanegol wrth weinyddu a gwneud cais am gymorth ariannol o dan y grant hwn.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Dirprwy Weinidog yn ailystyried y penderfyniad i rannu grant sefydliadol plant a theuluoedd rhwng yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Adran Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes yn 2012-13.**

## Sicrhau bod yr arian yn cael ei gyfeirio i'r mannau cywir

23. Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio gwarchod gwariant ar gyfer ysgolion drwy glustnodi'r ffrydiau arian mewn modd 'hyblyg'.

24. Ar gyfer maes addysg, golyga'r dull gweithredu hwn y bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio monitro gwario £61 miliwn o'r Grant Cynnal Refeniw a fwriedir ar gyfer ysgolion. Dywedodd y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes wrth y Pwyllgor y byddai'n monitro cyllidebau ysgolion ac yn gwirio awdurdodau lleol o ran sut roedd y dyraniad llawn wedi'i wario.

25. Fel rhan o'r dull gweithredu hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau cytundeb â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y dylai cyfraddau dirprwyo i ysgolion godi i 80% o fewn dwy flynedd a 85% o fewn pedair blynedd.

26. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cam i sicrhau y caiff ysgolion gyfle i gael cyfran uwch o'r arian a fwriadwyd ar eu cyfer, ond mae'n pryderu nad yw'r dull clustnodi arian yn hyblyg yn ddigon o bosibl i warchod y ffrydiau ariannu hyn pan fydd yn rhaid i awdurdodau lleol wneud penderfyniadau anodd am ddarparu gwasanaethau.

27. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud rhagor o waith ar gyllidebu ar gyfer plant a'r union ddull gweithredu hwnnw a fyddai'n galluogi canolbwyntio manylach ar ganlyniadau gwariant llywodraeth leol ar blant a phobl ifanc.

28. Mae hyblygrwydd llywodraethau lleol i ymateb mewn ffordd briodol i anghenion lleol yn bwysig, ac mae'n amlwg bod Llywodraeth Cymru'n ceisio amddiffyn hyblygrwydd o'r fath pan fo clustnodi hyblyg

yn hytrach na chlustnodi haearnaidd ar waith wrth ariannu ysgolion. Fodd bynnag, dywedodd Jan Leightly, Cyfarwyddwr Strategol ar gyfer Gweithredu dros Blant, wrth y Pwyllgor, yn ei rôl flaenorol fel pennaeth gwasanaeth mewn llywodraeth leol ei bod wedi croesawu adneuo arian Plant yn Gyntaf. Mae cadw ffrydiau cyllidebau plant wedi'u hadneuo mewn amseroedd o gynni ariannol yn bwysig i amddiffyn plant, ac i sicrhau bod y polisïau blaengar sydd gennym yng Nghymru yn cael eu rhoi ar waith yn briodol.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n monitro'n ofalus y dull clustnodi arian mewn modd hyblyg yn 2011-12, ac yn cymryd camau i hwyluso rhagor o glustnodi os oes angen i ffrydiau ariannu addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol.**

## Cymorth i'r plant a phobl ifanc mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas

Roedd y Pwyllgor yn pryderu o glywed tystiolaeth storïol, mewn adegau o gywasgu ar adnoddau, bod trothwyau amddiffyn plant yn aml yn cael eu codi. Mynegodd NSPCC, Plant yng Nghymru a Gweithredu dros Blant bryder, mewn adegau o bwysau neilltuol ar adnoddau, bod trothwyau amddiffyn plant yn cael eu codi a bod rhai plant a oedd gynt yn cael cymorth, bellach yn syrthio trwy'r rhwyd.

29. O gofio'r cynnydd yn y galw am wasanaethau a nodwyd ym mharagraff pedwar ar ddeg yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor yn pryderu y bydd gostyngiad mewn termau real ar gyfer cyllideb gwasanaethau cymdeithasol plant yn annigonol i ddiwallu'r gofynion.

30. Roedd NSPCC a Barnardo's Cymru hefyd yr un mor bryderus nad yw'r gyllideb ddrafft yn cynnwys cyfeiriad penodol at ba 'grwpiau agored i niwed' y mae'n ceisio gwarchod gwasanaethau ar eu cyfer. Mae modd y byddai hyn yn arwain at ddehongli hwn yn wahanol neu'n gwarchod gwasanaethau cymdeithasol statudol plant yn unig gan awdurdodau lleol. Roedd Barnardo's Cymru yn pryderu y byddai gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chymorth ymyrraeth gynnar i blant a theuluoedd agored i niwed yn cael ei roi i'r naill ochr wrth i iaith gwasanaethau 'rheng flaen' a 'hanfodol' gael ei ddehongli ar lefel leol fel darpariaeth gwasanaethau statudol yn unig.

31. Nododd yr NSPCC wrth y Pwyllgor hefyd y byddai toriadau mewn meysydd eraill o'r gyllideb, boed mewn meysydd datganoledig neu annatganoledig, wedyn yn effeithio ar y galw am wasanaethau amddiffyn plant. Mae'n bosibl y byddai rhagor o achosion o gamdrin domestig, camdrin alcohol a chyffuriau a rhagor o broblemau iechyd meddwl i rieni gan y pwysau cynyddol ar deuluoedd yn ystod y dirwasgiad. Ynghyd â thoriadau ar wasanaethau nad ydynt wedi'u datganoli fel cyfiawnder ieuenctid, byddai sefyllfa o'r fath yn cynyddu'r pwysau sydd eisoes ar adrannau gwasanaethau cymdeithasol plant sy'n ceisio darparu gwasanaethau amddiffyn plant gyda llai a llai o adnoddau.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru'n fonitro'n ofalus y trothwyau ar gyfer derbyn gwasanaethau, yn arbennig y trothwyau amddiffyn plant sy'n gymwys gan awdurdodau lleol trwy Gymru. Ymhellach, y dylid cyhoeddi canllawiau clir sy'n cynnwys diffiniadau o 'agored i niwed' a'r trothwyau amddiffyn plant lleiaf a ddylai fod yn gymwys, erbyn mis Ebrill 2011.**

32. Roedd y Pwyllgor yn siomedig bod Llywodraeth Cymru wedi gorfod adolygu'r cynlluniau i ychwanegu at y Gronfa Ymddiriedolaeth Plant. Fodd bynnag, bydd yr arian a neilltuwyd ar gyfer hyn yn cael ei ddefnyddio bellach i ddarparu grant o £500 i bobl sy'n gadael gofal i'w cynorthwyo i sefydlu eu cartref, i gael addysg bellach neu i gael ystod o bethau eraill sy'n angenrheidiol i'w paratoi ar gyfer bywyd fel oedolion annibynnol. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gefnogaeth hon i bobl ifanc agored i niwed.

33. Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu grant o £200 i blant anabl a fydd ar gael trwy'r ffrwd arian Teuluoedd yn Gyntaf.

## Digartrefedd ieuenctid

34. Mae'n bosibl y bydd toriadau i arian Cefnogi Pobl ac ariannu Adran 180 ar lefel y Deyrnas Unedig yn achosi anawsterau i wasanaethau digartrefedd ieuenctid sy'n rhoi cefnogaeth hanfodol i bobl ifanc agored i niwed. Mae'r Pwyllgor felly'n galw ar Lywodraeth Cymru i gynnig rhagor o gefnogaeth i wasanaethau digartrefedd ieuenctid yng Nghymru.

**Ymyrryd yn Gynnar**

35. Rhannodd y tystion eu pryderon â'r Pwyllgor ei bod yn bosibl y gellid edrych ar waith ymyrraeth gynnar fel elfen y mae modd torri arni'n rhwydd mewn amseroedd anodd.

36. Mewn adroddiadau blaenorol mae'r Pwyllgor wedi dwyn sylw at fanteision ymyrraeth gynnar sy'n arwain at well canlyniadau i blant, pobl ifanc a theuluoedd ac sy'n atal problemau rhag chwyddo trwy'r haenau cefnogaeth. Hefyd drwy leddfu pwysau ar yr haenau cefnogaeth uwch, a drutach, mae modd i ymyrraeth gynnar arbed arian hefyd.

37. Teimla'r Pwyllgor yn gryf na ddylai ymyrraeth gynnar gael ei weld fel targed rhwydd ar gyfer toriadau cyllidebol, ond y dylid ei gydnabod fel rhan hanfodol o'r pecyn cefnogaeth a gynigir gan lywodraeth leol a'i bartneriaid.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Dirprwy Weinidog ysgrifennu at holl awdurdodau lleol Cymru i'w hatgoffa am bwysigrwydd, effeithiolrwydd a gwerth gwasanaethau ymyrraeth cynnar ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd ac i atgoffa awdurdodau lleol y gallai toriadau i wasanaethau fel hyn fod yn niweidiol i deuluoedd mewn argyfrwng, ac arwain at gost ariannol i lywodraethau lleol yn y dyfodol.**

## Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiad a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl dystiolaeth lafar yn http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-cyp-home.htm

*30 Tachwedd 2010*

| | |
|---|---|
| Leighton Andrews AC | Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Huw Lewis AC | Y Dirprwy Weinidog dros Blant, Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Jan Leightley | Cyfarwyddwr Strategol, Gweithredu dros Blant |
| Des Mannion | Pennaeth Gwasanaethau NSPCC (Cymru) |
| Yyvonne Rodgers | Cyfarwyddwr, Barnardo's Cymru |
| Catriona Williams | Prif Weithredwr, Plant yng Nghymru |

## Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-cyp-home.htm

| *Sefydliad* | *Cyfeirnod* |
|---|---|
| Llywodraeth Cynulliad Cymru | CYP(3)-16-10-papur 1 |
| Barnardo's Cymru | CYP(3)-16-10-papur 2 |
| Gweithredu dros Blant | CYP(3)-16-10-papur 3 |
| Plant yng Nghymru | CYP(3)-16-10-papur 4 |
| Achub y Plant | CYP(3)-16-10-papur 5 |
| NSPCC | CYP(3)-16-10-papur 6 |